Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dysgu Cymraeg/Learn Welsh Nant Gwrtheyrn

**Nant Gwrtheyrn**
**Llithfaen**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 6NL**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Dysgu Cymraeg/Learn Welsh Nant Gwrtheyrn

Mae Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn (DCNG) wedi bod yn darparu cyrsiau dysgu Cymraeg ers 1982. Bu'n gweithredu am gyfnod fel rhan o Ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion Prifysgol Bangor, ac yn 2016 fe'i sefydlwyd yn ddarparwr i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (CDCG). Cyrsiau preswyl yw arbenigedd y Nant ac mae'r cyrsiau rheiny yn digwydd am gyfnodau o 3 neu 5 diwrnod ar y tro. Mae'r Nant hefyd yn darparu ychydig o gyrsiau rhithiol 3 neu 5 diwrnod.

Yn wahanol i'r darparwyr eraill sy'n gweithredu o dan faner y GDCG, mae gan y Nant gyrsiau unigryw sydd wedi eu creu ar gyfer y profiad dwys o ddysgu o lefel Blasu i Gloywi. Yn ystod 2022-23, darparodd prif ffrwd y Nant 452 o brofiadau dysgu unigol i 411 o ddysgwyr unigol.

Ers 2017, mae'r Nant hefyd yn rhedeg cynllun Defnyddio Cymraeg Gwaith (DCG). Yn ystod chweched cyfnod CG (Ebrill 2022-Mawrth 2023), gwelwyd 334 o brofiadau dysgu unigol ar 35 o gyrsiau.

Ariannir y ddwy ddarpariaeth gan y GDCG gyda'r brif ffrwd yn derbyn £170,000 a CG yn derbyn £330,000. Mae 4 aelod o staff yn gweithio yn Adran Addysg y Nant. Mae'r Rheolwr Addysg a Threftadaeth, Uwch Swyddog Cymraeg Gwaith, Uwch Diwtor a'r Swyddog Gweinyddol yn cydweithio â thîm o diwtoriaid llawrydd i ddarparu'r gwasanaethau uchod. Mae tîm ehangach o staff Nant Gwrtheyrn yn cefnogi'r ddarpariaeth.

Nid cyrsiau Cymraeg yn unig a gynigir ond profiad cyfrwng Cymraeg drwyddi draw sydd wedi ei deilwra'n  ofalus i godi hyder ac ysbrydoli dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ac i gamu i fyd diwylliant a threftadaeth y Gymraeg. Gyda hyn mewn golwg, ceir pwyslais ar y sgyrsiau anffurfiol sy'n digwydd o gwmpas y safle gyda gweithlu'r gegin, y safle a'r llety yn ogystal â phrofiadau allgyrsiol sy'n rhan o'r wythnos breswyl.

## Crynodeb

Mae DCNG yn ddarpariaeth sy'n cymell dysgwyr i ddysgu Cymraeg a defnyddio eu medrau yn hynod lwyddiannus mewn amgylchedd dysgu gynhaliol a chwbl unigryw. Mae dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau dwys ac yn lletya ar safle'r Nant yn cael profiad Cymreig rhagorol wrth i'r rhan fwyaf wneud cynnydd estynedig mewn cyfnod byr iawn. Dyma yw un o rinweddau mwyaf nodedig y Nant. Mae'r profiad hwn yn aml yn trawsnewid bywydau dysgwyr ac yn rhoi'r hyder iddynt barhau ar eu taith i ddysgu Cymraeg. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dysgu ar gyrsiau rhithiol a Defnyddio Cymraeg Gwaith (DCG) ar draws y ddarpariaeth yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae llawer o ddysgwyr sy'n dysgu gyda'r Nant yn dysgu Cymraeg gyda darparwyr eraill y CDCG hefyd, neu drwy ddulliau annibynnol. Yn aml, maent yn mynychu cyrsiau'r Nant i barhau i herio eu hunain a manteisio ar gyfleoedd ehangach i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol ddigymell. Maent yn llwyddo i gyflawni hyn yn llwyddiannus yn y Nant mewn profiadau cyfoethog sy'n cael eu cynllunio mewn gwersi ffurfiol ac mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Er mwyn cefnogi dysgwyr i ddysgu Cymraeg yn ddi-dor, mae tiwtoriaid yn cynnal asesiad cychwynnol ar y ffôn gyda phob dysgwyr unigol. Trwy hyn, mae'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno yn gyfrwng i hysbysu tiwtoriaid am brofiadau dysgwyr o ddysgu'r iaith, ac am eu bywydau a'u diddordebau personol. Mae tiwtoriaid yn cadw cofnod rheolaidd o gynnydd a chyflawniad pob dysgwr ac yn addasu'r gweithgareddau'n grefftus er mwyn eu cefnogi i fagu hyder a pharhau i wneud cynnydd. Serch hyn, nid oes gweithdrefnau wedi eu sefydlu i ganiatáu tiwtoriaid y Nant i rannu gwybodaeth yn genedlaethol am gynnydd a chyflawniad dysgwyr sydd wedi dilyn cyrsiau dwys y darparwr.

Un o gryfderau'r ddarpariaeth yw'r modd mae tiwtoriaid yn defnyddio dulliau trochi yn hynod lwyddiannus. Mae'r gweithgareddau dysgu yn cael eu teilwra'n fedrus i gyflwyno gwybodaeth am strwythur a gramadeg y Gymraeg sy'n cefnogi dysgwyr ymhellach i ddatblygu eu medrau gwrnado a siarad, yn fwyaf penodol. Mae dysgwyr ar y lefelau Canolradd ac uwch yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu yn hynod fedrus ac yn cefnogi eu gallu i siarad yn fwyfwy ymestynnol mewn amrywiaeth ddefnyddiol o gyd-destunau. Defnyddir dulliau trochi'n ehangach hefyd er mwyn agor y drws i ddysgwyr am hanes a diwylliant Cymru. Trwy hyn, mae tiwtoriaid yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau allgyrsiol sy'n rhoi'r cyfleoedd i ddysgwyr herio eu hunain i ddefnyddio'r Gymraeg mewn profiadau newydd, er enghraifft wrth archebu bwyd yng Nghaffi Meinir. Mae'r profiadau allgyrsiol hyn yn gryfder ac yn nodedig i ddarpariaeth y Nant.

Yn ehangach na'r profiadau allgyrsiol, mae dysgwyr yn cael profiadau cyfannol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn profiadau go iawn ar y safle megis y Ganolfan Dreftadaeth, ac yn y gymuned leol, er enghraifft wrth ymweld ag oriel. Mae dysgwyr yn gweithredu ar eu nodau personol o ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, tiwtoriaid a gydag aelodau lleol o'r gymuned. Er enghraifft, mae dysgwyr yn holi artistiaid lleol am eu profiadau perfformio mewn noson adloniant ar y safle neu'n cyflwyno eitem Gymraeg mewn noson lawen. O ganlyniad i'r profiadau cyfoethog hyn, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd hynod gadarn mewn amser byr yn eu medrau dysgu Cymraeg.

Mae'r tiwtoriaid profiadol yn meithrin uchelgais ar pob dysgwr yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr ac yn adeiladu eu gwybodaeth am y Gymraeg yn bwyllog a chefnogol. Yn ogystal â defnyddio dulliau trochi yn hynod effeithiol, maent yn manteisio ar bob cyfle i ddwysáu dealltwriaeth dysgwyr o gyfoeth gwahanol dafodieithoedd a chyweiriau iaith, fel y defnydd priodol o'r iaith ffurfiol ac anffurfiol. Trwy hyn, mae dysgwyr yn caffael y Gymraeg yn fwriadus gan werthfawrogi'r amrywiaeth sy'n bodoli o'r 'iaith sy'n fyw'. Mae'r cyfleoedd i diwtoriaid rannu ac efelychu arferion gorau'r addysgu a'r dysgu yn datblygu'n briodol fel rhan o'r arlwy dysgu proffesiynol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sefydlu gweithdrefnau i ganiatáu tiwtoriaid y Nant i rannu gwybodaeth yn genedlaethol am gynnydd a chyflawniad dysgwyr sydd wedi dilyn cyrsiau dwys y darparwr, er mwyn eu cefnogi i ddysgu Cymraeg yn ddi-dor

A2 Ymestyn yr arlwy dysgu proffesiynol i gynnwys cyfleoedd cyson i diwtoriaid arsylwi arferion effeithiol iawn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaethau achos ar ei waith mewn perthynas ag **effeithiolrwydd dulliau trochi i gefnogi cynnydd aruthrol dysgwyr mewn cyfnod byr**, a **darpariaeth allgyrsiol bwriadus i gyfoethogi profiad dysgwyr o siarad a defnyddio'r Gymraeg**, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Mae bron bob dysgwr yn ymroi'n llwyr i ddysgu Cymraeg tra'n mynychu cyrsiau'r Nant. Maent yn frwdfrydig i ryngweithio â'u cyd-ddysgwyr mewn amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu. Trwy'r profiad unigryw o ddysgu a lletya ar y safle gyda'u cyd-ddysgwyr a staff, mae'r rhan fwyaf yn magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg, ac mae hyn yn aml yn trawsnewid eu bywydau. O ganlyniad i ddarpariaeth hynod effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyrsiau dwys yn y Nant yn gwneud cynnydd estynedig mewn cyfnod byr. Mae'r rhan fwyaf sy'n dysgu trwy gyrsiau ar-lein a Defnyddio Cymraeg Gwaith (DCG) gyda'r Nant yn gwneud cynnydd cadarn.

Trwy ddulliau addysgu a dysgu medrus, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn siarad Cymraeg yn ddigymell â'u tiwtoriaid a'u cyd-ddysgwyr, ac yn awyddus i ddefnyddio geirfa a phatrymau cystrawennol sy'n newydd iddynt ar safle'r Nant, yn y gymuned leol, a thu hwnt. Trwy feithrin agweddau cadarn ac ymarfer siarad Cymraeg yn gyson, mae dysgwyr yn datblygu'r hyder i siarad a chymhwyso eu medrau yn hynod lwyddiannus.

Yn sgil yr addysgu cyson a'r defnydd effeithiol o ddulliau trochi, mae dysgwyr yn adalw gwybodaeth am y Gymraeg yn fedrus o fewn gwersi ffurfiol ac mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru trwy'r Gymraeg. Er enghraifft, mae dysgwyr yn gwrando, ailadrodd a defnyddio geirfa newydd panfyddant yn aelodau o gynulleidfa mewn sioe ryngweithiol am yr Eisteddfod Genedlaethol. Trwy hyn, mae dysgwyr yn uniaethu â'r profiad o weld y goron a'r gadair mewn oriel leol fel rhan o baratoadau Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd. Mae hyn yn meithrin eu chwilfrydedd i ymweld â'r digwyddiad cenedlaethol hwn fel rhan o'r profiad dysgu Cymraeg.

Ar draws y lefelau, boed trwy ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb neu ar-lein, mae bron bob dysgwr yn datblygu eu medrau llafar yn hynod effeithiol. Maent yn gwrando'n gyson ar diwtoriaid a'i gilydd, ac yn manteisio ar gyfleoedd sy'n cyfoethogi eu gwybodaeth am iaith ffurfiol ac anffurfiol. Er enghraifft, mae'r dysgwyr yn gwrando'n astud ar diwtoriaid wrth iddynt gyflwyno geirfa, patrymau a dywediadau Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn mewnoli'r iaith yn fedrus wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth effeithiol o weithgareddau dysgu mewn gwersi, er enghraifft wrth ailadrodd berfau yn y modd gorffennol mewn gweithgaredd drilio iaith. Mae dysgwyr yn dysgu am nifer o wahanol elfennau ieithyddol, er enghraifft geirfa a phatrymau ffurfiol ac anffurfiol, ar yr un pryd. Wrth i diwtoriaid egluro'r gwahaniaeth rhwng y naill gywair a'r llall yn grefftus a phwyllog, mae dysgwyr yn ailadrodd ac yn atgyfnerthu'r iaith darged er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o'r Gymraeg ymhellach.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar y lefelau Blasu a Mynediad yn dysgu am wahanol gyweiriau iaith yn effeithiol. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr i ddwysáu eu dealltwriaeth odafodiaith amrywiol eu cyd-ddysgwyr, sy'n aml yn byw mewn ardaloedd ledled Cymru, a thu hwnt. Yn ogystal, trwy wrando a defnyddio'r

dafodiaith sy’n berthnasol iddyn nhw, mae hyn yn eu cefnogi i siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus wrth iddynt gymhathu’n ddiweddarach i’w cymunedau lleol.

Mae’r profiadau uniongyrchol hynod werthfawr yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy’n lletya ar y safle i herio eu hunain a chyfranogi’n gynyddol hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau, er enghraifft wrth i ddysgwyr lefel Sylfaen archebu swper am y tro cyntaf yn Gymraeg yng Nghaffi Meinir. Gyda chefnogaeth sensitif staff cyffredinol y Nant, er enghraifft staff y swyddfa, cynnal a chadw ac arlwyo, mae dysgwyr yn defnyddio’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd go iawn yn gynyddol fedrus. Yn aml, mae dysgwyr yn llunio nodau ieithyddol personol i’w hunain er mwyn cyfathrebu yn y Gymraeg yn ymarferol fel rhan o’u taith iaith. Y profiadau cyfannol hyn yw un o rinweddau nodedig y ddarpariaeth.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu’n dda yn unol â’u lefel. Mae dysgwyr lefel Mynediad, er enghraifft, yn gwrando ar y tiwtor yn darllen nofelau sy’n aml yn heriol iddynt gan ymestyn eu geirfa a’u patrymau’n effeithiol. Trwy weithgareddau darllen perthnasol, fel cywain gwybodaeth mewn erthyglau a chylchgronau Cymraeg yn unol â lefel dysgwyr, mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau ynganu yn dda ac yn rhoi ystyr a lliw yn gynyddol wrth ddarllen. Er enghraifft, mae dysgwyr lefel Uwch yn darllen y gerdd ‘Strydoedd Aberstalwm’ ac yn dwysáu eu dealltwriaeth o eirfa dafodieithol fel ‘hogia’, ‘bloda’ a ‘panad’. Fel gweithgaredd ymestynnol, maent yn mwynhau gwrando ar fand lleol yn perfformio’r gerdd hon trwy gerddoriaeth ddigidol sy’n cyfrannu at eu gwerthfawrogiad o adloniant Cymraeg cyfoes. Yn ogystal, mae dysgwyr yn darllen a chyflwyno cerdd am argyfwng hinsawdd mewn noson lawen sy’n cael ei chynnal gan y dysgwyr eu hunain, fel rhan o’r ddarpariaeth allgyrsiol unigryw. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr sy’n dysgu wyneb-yn-wyneb neu ar-lein, yn cyfoethogi eu geirfa a dwysáu eu dealltwriaeth o’r ‘iaith sy’n fyw’ yn hynod effeithiol trwy weithgareddau darllen.

Mae llawer o ddysgwyr ar y lefelau Canolradd ac uwch yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n effeithiol wrth ymroi i weithgareddau diddorol. Er enghraifft, mae dysgwyr lefel Uwch yn cydweithio’n effeithiol mewn pâr fel gweithgaredd baratoi ar gyfer cynnal cyfweliad radio am gynaliadwyedd. Maent yn datblygu eu gwybodaeth am eirfa a phatrymau amrywiol gan ddefnyddio amser presennol a gorffennol y ferf wrth baratoi cwestiynau, gan ddefnyddio iaith ffurfiol yn gywir. Maent yn cymryd tro i ddarllen y cwestiynau er mwyn holi ac yna’n ymarfer defnyddio’r terfyniad cywir wrth ateb cwestiwn, fel ‘do / naddo’, oes / nac oes’. Yn gynyddol annibynnol, mae dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o’r defnydd cywir o gywair iaith wrth ysgrifennu mewn amrywiaeth berthnasol o ffurfiau. Er enghraifft, mae dysgwyr lefel Canolradd yn ysgrifennu llythyr diolch i actor yn dilyn sioe yn cyflwyno bywyd a gwaith y bardd Hedd Wyn, a dysgwyr lefel Uwch yn ysgrifennu adolygiad ar ôl gwylio’r ffilm ‘Y Sŵn’ ar S4C.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr DCG yn magu hyder i ddefnyddio’r iaith yn hynod lwyddiannus. Er enghraifft, mae dysgwyr lefel Sylfaen yn adeiladu ar eu medrau yn gyson i gyflwyno gwybodaeth ar lafar i’w cyfoedion ar ddiwedd yr wythnos. Maent yn defnyddio’r eirfa a’r patrymau sydd wedi eu cyflwyno a’u hatgyfnerthu’n gyson iddynt yn llwyddiannus, gyda llawer yn hyderus i holi ac ateb cwestiynau i’w cyd-ddysgwyr am gynnwys eu cyflwyniadau. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr sy’n dilyn cwrs DCG ar y

lefelau Uwch, yn mireinio a gwella eu medrau ysgrifennu'n hynod effeithiol. Maent yn dysgu sut i amrywio cysyllteiriau mewn brawddegau cymhleth a sillafu geiriau sy'n cynnwys y seiniau 'u', 'i' ac 'y' yn gywir, er enghraifft, fel canllaw iddynt ysgrifennu e-bost neu gyflwyniad yn eu swyddi o ddydd i ddydd. Trwy'r gweithgareddau defnyddiol hyn, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n fedrus.

Ar gyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf, mae 411 o ddysgwyr yn cofrestru ar gyrsiau prif ffrwd y Nant. Mae 308 o ddysgwyr ar gyfartaledd yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi ymrestru ar gyrsiau DCG y darparwr. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cynnydd cyson o ddysgwyr yn ymrestru ar gyrsiau prif ffrwd, gyda nifer cynaledig yn ymrestru ar gyrsiau DCG. Mae 11% o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn wrth symud o'r naill gwrs i'r llall o fewn y ddarpariaeth mewn un flwyddyn academaidd.

Mae 62% o ddysgwyr sy'n mynychu cyrsiau rhithiol prif ffrwd y Nant yn ymrestru ar gyrsiau preswyl yn ddiweddarach. Mae cynnydd eithriadol dysgwyr, er enghraifft 53% ohonynt wedi gwneud cynnydd o un lefel rhwng 2021/22 a 2022/23 o fewn darpariaeth y Nant ac yn ehangach, yn nodwedd ragorol.

Oherwydd natur y cyrsiau, mae bron pob dysgwr wedi cwblhau'r cyrsiau yn llawn dros y tair blynedd ddiwethaf.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mewn awyrgylch gynhaliol a chynhwysol, mae bron bob dysgwr yn mwynhau'r profiadau dysgu cyfoethog sy'n cael eu cynnig gan y Nant. Mae eu brwdfrydedd at ddysgu Cymraeg yn amlwg ac maent yn gwerthfawrogi cefnogaeth a her eu tiwtoriaid ar eu taith iaith tuag at rugldег. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn cael cymorth gwerthfawr yn ystod eu cyrsiau i gyflawni eu nodau personol.

Mae bron bob dysgwr yn ddiwyd ac yn cwblhau eu cyrsiau ac mae ganddynt agweddau hynod gadarnhaol at eu profiad o ddysgu'r iaith. Maent yn frwdfrydig yn y gwersi a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft wrth ymroi'n llawn i weithgareddau hwyliog fel canu'r anthem genedlaethol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar bob lefel yn rhyngweithio'n arbennig o dda â'i gilydd a'u tiwtoriaid. Maent yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfleoedd amrywiol sydd ar gael iddynt gyfranogi'n naturiol mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd, sydd yn ei dro yn rhoi hwb calonogol i'w hunanhyder. At ei gilydd, mae bron bob dysgwr yn cyfrannu'n frwd yn y sesiynau sy'n esgor ar awyrgylch gynnes a chynhyrchiol.

Mae bron bob dysgwr yn dangos diddordeb yn eu dysgu ac yn falch o'r cyfleoedd i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru. Maent yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i ymestyn eu dysgu tu hwnt i wersi, er enghraifft wrth iddynt fynd ar deithiau cerdded o gwmpas y safle i ymarfer eu medrau. Yn sgil hyn, mae'r holl brofiadau cyfannol yn cael effaith hynod gadarnhaol ar les y dysgwyr. Yn ddiweddar, ar gais y dysgwyr, trefnwyd taith natur leol gyda swyddog Ymddiriedolaethau Natur Cymru er mwyn dysgu enwau anifeiliaid a phlanhigion yn Gymraeg. Dan arweiniad crefftus tiwtoriaid, mae bron bob dysgwr yn datblygu eu medrau dros amser yn effeithiol i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus ac annibynnol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cydweithio'n frwdfrydig i drefnu digwyddiadau megis nosweithiau llawen

sy’n rhoi llwyfan iddynt gael profiad o fyw yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Yn aml, mae gan ddysgwyr resymau personol clir dros ddysgu’r iaith ac maent yn defnyddio’r cymhelliant hwn i ysbrydoli ei gilydd yn effeithiol. Dangosant barch amlwg at gyfraniadau pobl eraill ac maent yn groesawgar wrth ymgysylltu, defnyddio eu medrau ac ymlacio yng nghwmni ei gilydd ac ymwelwyr.

Mae bron bob dysgwr yn rhyngweithio’n gyson ac hamddenol gydag eraill mewn grwpiau bychain ac mewn sefyllfaoedd torfol. Maent yn canolbwyntio’n dda, yn barod i roi cynnig ar brofiadau newydd a mentro’n ddigymell mewn sefyllfaoedd mwy heriol ac anghyfarwydd. Mae llawer o ddysgwyr yn holi cwestiynau a chyfrannu’n hyderus wrth ddatblygu’r ymddygiadau allweddol ar gyfer dysgu gydol oes. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i adborth ac anogaeth eu tiwtor ac yn ymgymryd yn ddiwyd â’r tasgau. Dros amser, mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu’r hyder i gyfrannu’n werthfawr wrth ymateb a rhoi adborth ar waith eu cyfoedion. Maent yn dangos dycnwch cynyddol ac yn dyfalbarhau’n effeithiol pan fyddant yn wynebu unrhyw rwystrau neu anawsterau.

O ganlyniad i’r gefnogaeth bersonol a’r ymdeimlad cynnes o deulu, mae bron bob dysgwr yn teimlo’n ddiogel ac yn rhydd rhag unrhyw niwed corfforol neu eiriol. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn nodi eu dymuniad i ddychwelyd i’r Nant fel rhan o’u datblygiad ieithyddol. Mae’r rhan fwyaf sy’n mynychu cyrsiau wyneb-yn-wyneb a rhithiol yn datgan eu mwynhad o ddysgu a gwneud cynnydd hynod gadarn yn eu medrau Cymraeg. Yn aml, mae hyn oherwydd arweiniad crefftus tiwtoriaid a natur gyfannol eu profiad o ddysgu’r iaith.

Yn gyffredinol, mae lefelau presenoldeb a chyfraddau cwblhau ar draws yr ystod o gyrsiau yn uchel iawn. Nodwedd gref o hyn yw’r lefel uchel o ymrwymiad mae dysgwyr yn ei ddangos wrth iddynt fynychu cyrsiau preswyl y Nant.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Rhagorol**

Mae’r darparwr yn cynnig cyrsiau mewn dwy ffrwd ddysgu: y brif ffrwd o gyrsiau preswyl ac ar-lein ar draws y lefelau a’r ffrwd DCG sydd â chyrsiau ar lefelau Canolradd, Uwch, Gloywi (siarad) a Gloywi (ysgrifennu).

Un o rinweddau’r ddarpariaeth breswyl yw’r cyfle gaiff dysgwyr i brofi trochi llwyr yn yr iaith Gymraeg ar y cyd â dysgu am hanes a diwylliant Cymru. Mae’r ddarpariaeth ar-lein yn cynnig profiadau tebyg ond ar raddfa lai. Mae llawer o ddysgwyr sy’n mynychu gwersi prif ffrwd y Nant yn dysgu Cymraeg gyda darparwyr eraill hefyd fel rhan o drefniadau CDCG, neu’n dysgu Cymraeg trwy ddulliau eraill yn annibynnol. Yn aml, mae dysgwyr yn cofrestru ar gyrsiau’r Nant fel cyfrwng iddynt gael cefnogaeth neu hwb ychwanegol i fireinio neu atgyfnerthu eu medrau fel rhan o’u taith i ddysgu’r iaith. Yn ogystal, mae arweinwyr yn darparu cyrsiau ehangach, er enghraifft cwrs ‘Codi Hyder’ er mwyn annog siaradwyr anfoddog i ddefnyddio’r iaith.

Mae bron bob dysgwr, sy’n dysgu wyneb-yn-wyneb neu’n rhithiol, yn ymgolli’n llwyr i ddysgu Cymraeg trwy brofiadau cyfannol sy’n cael eu cyflwyno mewn amgylchedd dysgu gynhaliol a Chymreig. Mae dysgwyr yn magu hyder ac yn gwneud cynnydd cyflym iawn mewn cyfnod byr i siarad a defnyddio’r Gymraeg.

Mae dros 100 o sefydliadau a mudiadau yn elwa’n fuddiol o’r cyrsiau DCG bob blwyddyn fel modd o gefnogi staff i ddefnyddio’r Gymraeg fel rhan annatod o’u gyrfaoedd o ddydd i ddydd. Mae’r ddarpariaeth, sy’n cael ei theilwra’n gelfydd, yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr yn llwyddiannus ac yn rhoi’r hyder iddynt gymhwyso eu medrau yn eu swyddi wrth sgwrsio â chwsmeriaid neu gleifion, cyflwyno gwybodaeth mewn dull aml-gyfrwng, neu gyfweld darpar ymgeiswyr ar gyfer swydd, er enghraifft. O ganlyniad i farchnata effeithiol, trefniadau manwl a chynllunio trylwyr, mae’r Nant yn gweithredu gweledigaeth bellgyrhaeddol trwy ddarparu ystod eang o gyrsiau yn hynod lwyddiannus.

Nodwedd ragorol o’r ddarpariaeth yw’r cyngor a’r arweiniad a ddarperir i ddysgwyr gan yr Uwch Diwtor a’r Uwch Swyddog Prosiect DCG cyn iddynt fynychu cyrsiau’r Nant. Wrth i ddysgwyr ddangos diddordeb i ymrwymo mewn cwrs, mae’r Tiwtor a’r Swyddog yn trefnu galwad ffôn bersonol er mwyn rhoi’r cyfle iddynt rannu gwybodaeth am eu taith i ddysgu Cymraeg, ynghyd â’u profiadau a’u diddordebau personol. Trwy’r asesiad lefel anffurfiol hwn, mae arweinwyr yn cynghori’r dysgwyr i gofrestru ar gwrs addas er mwyn diwallu eu hanghenion dysgu a’u cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae’r tiwtoriaid ymroddedig yn mireinio’r sesiynau dysgu’n greadigol er mwyn ennyn a chynnal diddordeb dysgwyr yn unol â’r wybodaeth a ddarparwyd iddynt yn dilyn yr asesiad cychwynnol. Mae’r dull o deilwra’r ddarpariaeth hon yn elfen nodedig o’r ddarpariaeth.

Mae’r tiwtoriaid amser llawn a llawrydd brwdfrydig yn hyderus eu gwybodaeth am y modd mae dysgwyr ar wahanol lefelau yn magu hyder i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Trwy feithrin uchelgais i gefnogi pob dysgwyr i wneud cynnydd cadarn, mae gan diwtoriaid ddisgwyliadau clir ac maent yn defnyddio’r wybodaeth asesu flaenorol yn hynod effeithiol er mwyn herio a chynnal dysgwyr. Maent yn addasu’r cynlluniau wrth gyflwyno gweithgareddau sy’n cefnogi dysgwyr i gyfranogi a dwysáu eu dealltwriaeth o strwythur a gramadeg y Gymraeg, gan gynnwys o fewn gweithgareddau darllen ac ysgrifennu perthnasol.

Mae’r tiwtoriaid yn holi dysgwyr yn fedrus ac yn cyfuno dulliau adborth yn gelfydd mewn amgylchedd dysgu sy’n cyfuno anogaeth a chefnogaeth gyson i ddysgwyr yn llwyddiannus. Trwy’r dull ‘Cofnodi Cynnydd’, mae tiwtoriaid yn monitro cyflawniad dysgwyr yn gyson fel sail i addasu’r ddarpariaeth yn barhaus. Mae hyn, ynghyd â’r wybodaeth a ddarperir i ddysgwyr trwy’r sesiwn ‘Beth nesaf?’ a’r Pecyn Llongyfarch, yn cyfrannu’n gadarn at eu cefnogi i barhau â’u bwriad i ddysgu Cymraeg.

Ar draws y ddarpariaeth, mae tiwtoriaid yn amseru’r sesiynau dysgu’n fedrus i sicrhau bod dysgwyr yn cadw diddordeb a’u gallu i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth adeiladu geirfa a phatrymau. Trwy weithgareddau gwrando effeithiol, mae tiwtoriaid yn manteisio i’r eithaf i herio dysgwyr i ddatblygu eu medrau siarad yn gywir, gan gynnwys hyrwyddo ynganu geiriau’n gynyddol gywir. Mae tiwtoriaid yn defnyddio ystod dda o adnoddau er mwyn procio’r cof ac i ymestyn profiadau dysgwyr, er enghraifft wrth gyflwyno caneuon traddodiadol a chyfoes fel ‘Oes gafr eto?’ a ‘Lawr ar lan y môr’, i atgyfnerthu elfennau llafar penodol. Defnyddir clipiau digidol o chwedleuwr yn cyflwyno straeon lleol megis chwedl Rhys a Meinir a chwedl Gwrtheyrn fel sbardun trafodaeth, ynghyd â gwahodd artistiaid lleol i gynnal

nosweithiau o adloniant fel modd o gyflwyno geirfa a phatrymau newydd i'r dysgwyr sy'n lletya ar y safle.

Mae tiwtoriaid hefyd yn amrywio'r gweithgareddau dysgu'n fedrus wrth ddefnyddio lleoliadau diddorol y safle megis Y Ganolfan Dreftadaeth, fel sbardun i ddysgwyr ddarllen y wybodaeth a'i chrynhoi i ffurf hysbyseb atyniadol i ymwelwyr. Yn grefftus, mae tiwtoriaid yn cyflwyno barddoniaeth sy'n lleol i'r Nant, fel y cerddi 'Penrhyn Llŷn' a 'Neuadd Mynytho', i sbarduno dysgwyr ar y lefelau Canolradd ac uwch i drafod am y profiad o fod ym Mhenrhyn Llŷn, sy'n arwain at weithgaredd ysgrifennu diddorol am 'Fy hoff le'. At ei gilydd, mae tiwtoriaid yn defnyddio teclynnau digidol yn hyblyg yn unol â phob cyd-destun unigol i hwyluso a chefnogi'r dysgu, fel y bo'n briodol.

Mae tiwtoriaid yn siarad Cymraeg yn gyson a diwyro mewn gwersi ac yn addasu'r cywair iaith yn llwyddiannus er mwyn diwallu anghenion dysgwyr. Maent yn defnyddio methodoleg dysgu iaith sy'n cynnwys dulliau trochi yn hynod effeithiol. Mae tiwtoriaid yn amrywio'r dulliau addysgu a dysgu yn gyson er mwyn cyflwyno ac atgyfnerthu geirfa a phatrymau amrywiol, er enghraifft wrth chwarae gemau ymarferol i redeg berf yn yr amser gorffennol. Caiff dysgwyr gyfleoedd gwerthfawr i ailadrodd yr hyn maent wedi'i ddysgu mewn gweithgareddau pâr neu grŵp gan eu cefnogi i'w cymhwyso i gyd-destunau go iawn. Er enghraifft, fel rhan greiddiol o'r cyrsiau preswyl, mae dysgwyr yn ymarfer geirfa a phatrymau fel 'Ga' i brynu llyfr sy'n costio dim mwy na deg punt os gwelwch yn dda?' er mwyn eu defnyddio'n ymarferol wrth ymweld â siop lyfrau Gymraeg leol. Mae'r ddarpariaeth allgyrsiol ragorol hon sy'n rhan annatod o'r profiad trochi ym mhob gofod o'r safle a thu hwnt, yn rhoi hyder i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn rhagweithiol, a heb ofn gwneud camgymeriad. Caiff dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau rhithiol brofiadau allgyrsiol achlysurol fel rhan o'r ddarpariaeth i'w cefnogi i siarad a theimlo'n aelodau o gymuned Gymreig estynedig.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Rhagorol

Mae lleoliad unigryw Nant Gwrtheyrn, ynghyd ag angerdd y staff at eu gwaith, yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg a dwysàu eu gwerthfawrogiad o'u cymunedau a Chymru. Mae'r berthynas agos sy'n datblygu rhwng y tiwtoriaid a'r dysgwyr, a'r dysgwyr â'i gilydd yn gryfder. O ganlyniad, mae hyn yn esgor ar ethos ac awyrgylch parchus a goddefgar tu hwnt.

Drwyddi draw, mae tiwtoriaid yn darparu profiadau cydlynus sy'n helpu dysgwyr i feithrin ymwybyddiaeth gadarn o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae tiwtoriaid yn gwbl glir eu disgwyliadau uchelgeisiol yn y 'Cyfarfod Croeso' cyntaf ac yn eu gweithredu'n llwyddiannus. Trwy gynllunio bwriadus, mae tiwtoriaid yn sicrhau cyfleoedd hynod gyfoethog i ddysgwyr gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u taith iaith unigol. Maent yn eu cefnogi'n hynod effeithiol i ystyried a llunio nodau personol yn gyson. O ganlyniad, mae'r dysgwyr yn rhan greiddiol o'r gymuned ddysgu ac yn cyd-arwain y dysgu yn aml. Drwy gefnogi a herio, mae tiwtoriaid yn meithrin amodau diogel i ddysgwyr roi cynnig ar siarad a defnyddio'r Gyrmaeg heb fod ofn gwneud camgymeriadau. Mae gan y darparwr drefniadau cadarn ar gyfer olrhain a monitro cynnydd pob dysgwr yn ansoddol drwy'r daenlen 'Cofnodi Cynnydd'. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael yn effeithiol, ochr yn ochr â gwybodaeth am

gyrsiau blaenorol, i sicrhau eu bod yn ymateb yn amserol i anghenion dysgwyr unigol.

Mae staff yn darparu gwybodaeth yn briodol i ddysgwyr drwy amryfal ffynonellau fel y wefan a'r 'Pecyn Croeso'. Mae'r galwadau ffôn i ddysgwyr unigol yn gyfrwng i diwtoriaid ddarparu amgylchedd lles a dysgu hynod effeithiol. Mae'r staff ysbrydoledig yn cynnig arweiniad a chyngor diduedd i ddysgwyr cyn, yn ystod ac ar ddiwedd eu rhaglenni wrth iddynt ystyried eu camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, mae dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau preswyl a rhithiol yn gwneud cynnydd hynod gadarn mewn amgylchedd dysgu sy'n blaenoriaethu lles ac anghenion bob un yn unigol yn rhagorol.

Mae staff yn cefnogi unrhyw ddysgwr a allai fod mewn perygl o dangyflawni mewn modd cynhaliol a sensitif yn llwyddiannus. Mae staff yn aml yn cynllunio'n ddiwyd i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i ddysgwyr rhag cyflawni eu cyrsiau gan gynnig cefnogaeth un-i-un, lle bo'n briodol. Gall hyn olygu eu tynnu allan o wers am sgwrs, gwirio eu lles yn anffurfiol yn ystod amser egwyl neu ginio neu gynnal sesiwn adolygu cyflym ar ddiwedd y dydd.

I gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion meddygol penodol, mae'r darparwr yn cael hyfforddiant a chyngor gan asiantaethau allanol megis Prifysgol Bangor neu'r CDCC i ymateb i'r angen. Maent yn ymdrin â'r wybodaeth yn briodol ac yn sicrhau bod pob cam posibl yn ei le fel nad oes unrhyw effaith andwyol ar brofiad y dysgwr, boed yn ddysgu wyneb-yn-wyneb neu rithiol. Mae cefnogaeth holl staff cyffredinol y lleoliad yn nodwedd gref sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan ddysgwyr. Mae arweinwyr yn rhannu gwybodaeth am lefelau iaith gyda'r holl staff ac yn hyfforddi pob aelod o staff newydd yn effeithiol. Er enghraifft, fel rhan o'r broses anwytho, mae arweinwyr yn hyfforddi'r holl staff i ddefnyddio dulliau penodol gyda dysgwyr i atgyfnerthu gwaith y tiwtoriaid. Caiff staff eu briffio'n wythnosol er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o lefelau iaith y dysgwyr cyn iddynt gyrraedd y Nant. Mae hyn yn elfen greiddiol o'r gwaith trochi sy'n digwydd gyda dysgwyr ar y safle.

Mae sesiynau llais y dysgwr wythnosol, holiaduron 'Dweud eich dweud' a sgyrsiau cyson yn y gwersi a thu hwnt yn sicrhau bod y darparwr yn casglu barn dysgwyr yn gyson ac yn ymateb yn gyflym i unrhyw faterion sy'n codi. Mae arweinwyr a staff yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn addasu cynlluniau a threfniadau perthnasol wrth lunio camau gweithredu priodol i wella profiadau ar gyfer pob dysgwr.

Mae holl staff yr adran addysg a staff cyffredinol y Nant yn cyfrannu at greu diwylliant o ddiogelu cadarn. Maent yn ystyriol o deimladau dysgwyr sydd yn dod i leoliad anghyfarwydd, ar eu pennau eu hunain, am gyfnod estynedig ac yn cynllunio ymlaen llaw i leihau unrhyw straen. Mae trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan y darparwr asesiadau risg iechyd a diogelwch perthnasol ar gyfer sicrhau y gofal gorau posibl i bob dysgwr tra byddant yn aros ar y safle. Mae'r trefniadau ar gyfer recriwtio staff yn addas.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r holl staff yn rhannu'r un gwerthoedd sydd wedi'u seilio ar weledigaeth arloesol sefydlwyr y Nant, sef creu profiad unigryw i ddysgwyr a'u hysbrydoli ar gyfer y dyfodol. Mae'r weledigaeth hon yn sylfaen i holl waith y darparwr ac yn canolbwyntio ar sicrhau'r cyfleoedd gorau ar gyfer dysgwyr i ddysgu a siarad Cymraeg, yn enwedig wrth ddarparu cyfoeth o brofiadau i'w trochi yn yr iaith, a hanes a diwylliant Cymru. Mae'r cyfleoedd a'r profiadau hyn yn cymell dysgwyr i ddychwelyd dro ar ôl tro i wella a datblygu eu medrau ymhellach. Mae arweinwyr a staff y Nant yn cefnogi'r weledigaeth hon yn angerddol ym mhob agwedd o'u gwaith. Mae'r Rheolwr Addysg a Threftadaeth yn arwain y ddarpariaeth yn hynod lwyddiannus. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun a'i thîm, gan anelu at ragoriaeth ar draws y gwasanaeth.

Mae gan arweinwyr berthynas glos a gwerthfawr gyda'r GDCG. Er bod strwythurau'r Nant yn wahanol i weddill darparwyr Cymraeg i oedolion, mae cyfleodd rheolaidd i arweinwyr a thiwtoriaid drafod llwyddiannau ac unrhyw heriau sy'n codi yn gyson. Fodd bynnag, nid oes gweithdrefnau wedi eu sefydlu i ganiatáu tiwtoriaid y Nant i rannu gwybodaeth yn genedlaethol am gynnydd a chyflawniad dysgwyr sydd wedi dilyn cyrsiau dwys y darparwr er mwyn eu cefnogi i ddysgu Cymraeg yn ddi-dor.

O dan arweiniad cadarn y Cadeirydd, mae aelodau'r Bwrdd Rheoli yn cynnal trosolwg parhaus o waith y darparwr. Maent yn darparu arweiniad pwrpasol a chefnogaeth glir ar gyfer arweinwyr y Nant. Mae'r aelodau'n cyfarfod arweinwyr y gwasanaeth yn rheolaidd fel bod ganddynt ddealltwriaeth ymarferol o bob agwedd o'r gwasanaeth a'i ddatblygiad. Maent yn craffu'n rheolaidd ar weithdrefnau'r darparwr, er enghraifft wrth fanylu ar wariant i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o gyllid a sicrhau gwerth am arian.

Mae arweinwyr yn cynnal trefniadau hunanwerthuso perthnasol sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar ddatblygu'r ddarpariaeth. Mae'r trefniadau wedi eu seilio ar amrediad eang o dystiolaeth uniongyrchol a dibynadwy. Mae cyfleoedd gwerthfawr i diwtoriaid amser llawn a llawrydd gyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am fethodoleg addysgu iaith, ac maent yn cyfrannu'n barhaus at ddatblygu cynnwys y cyrsiau ar bob lefel. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd blaengar o'u harbenigeddau er mwyn mireinio'r arlwy, er enghraifft wrth gyflwyno cyrsiau DCG sy'n datblygu hyder dysgwyr yn hynod lwyddiannus. Fel rhan o'r broses gwella ansawdd, mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i rannu ac efelychu arferion gorau'r addysgu a'r dysgu trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol.

Mae'r 'Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol' a'r 'Cynllun Datblygu Ansawdd' yn crynhoi gwaith y darparwr yn briodol, gan roi strwythur manwl i fesur cynnydd a gwelliant yn erbyn amcanion penodol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n bwrpasol ag aelodau'r Bwrdd Rheoli.

Mae'r darparwr yn cynnig amrediad priodol o brofiadau dysgu proffesiynol i'r tiwtoriaid a'r staff, llawer ohonynt mewn cydweithrediad â rhaglen hyfforddi'r GDCG. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn mynychu hyfforddiant ar sut i deilwra eu dulliau

addysgu ar gyfer dysgwyr sydd â'r cyflwr awtistiaeth. Yn sgil hyn, cafwyd adborth cadarnhaol gan ddysgwyr oedd wedi elwa'n fawr o'r gynhaliaeth werthfawr hon. Mae tiwtoriaid hefyd wedi cael hyfforddiant i'w cefnogi i amrywio'r dulliau addysgu, er enghraifft wrth hyrwyddo ynganiad cywir dysgwyr. O ganlyniad, mae arweinwyr a thiwtoriaid yn mireinio eu harfer addysgu yn effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae adolygiadau perfformiad rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn adnabod amcanion datblygiad staff unigol. Caiff yr amcanion hyn eu gwerthuso'n briodol.

Mae'r Rheolwr Addysg a Threftadaeth yn cydweithio'n agos â Phrif Weithredwr y Nant i sicrhau defnydd llawn ac effeithlon o'r gyllideb. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod blaenoriaethau a monitro gwariant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod lefelau addas o staffio ar gyfer cyrsiau ar bob lefel ac maent yn rhagfynegi anghenion staffio'r ddarpariaeth yn llwyddiannus.

Mae tîm craidd o diwtoriaid cyflogedig a thîm ehangach o diwtoriaid llawrydd yn cydweithio'n hynod lwyddiannus wrth gyflwyno'r amrediad eang o gyrsiau ar y safle ac yn rhithiol. Mae cyfraniad staff cyffredinol y Nant nad ydynt yn addysgu yn allweddol wrth sicrhau profiad cynhwysol ac unigryw i ddysgwyr tra eu bod yn dysgu Cymraeg ar y safle.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â phennaeth y darparwr, cynrychiolydd y corff rheoli/corff llywodraethol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol), a thiwtoriaid i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn ymgysylltu â dysgwyr i drafod eu gwaith ac i glywed eu barn am agweddau amrywiol ar y darparwr
- yn cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr, fel cynrychiolwyr grwpiau llais y dysgwr
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu i arsylwi dysgwyr mewn gwersi ac mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynlluniau gwella'r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 04/01/2024